

BEAUMONT, JAMES (bu farw 1750), cynghorwr bore gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Enw: James Beaumont
Dyddiad marw: 1750
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cynghorwr bore gyda'r Methodistiaid Calфинаidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Dyn o sir Faesyfed, na wyddys ond hanes deng mlynedd olaf ei fywyd. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa Annibynnol y Gore (yn ymyl Hen Faesyfed), ond syrthiodd dan ddylanwad [Howel Harris](#), ac aeth i bregethu. Yn 1741 fe'i ceir yn Dilwyn (sir Henffordd) yn pregethu dan adain rhyw Mrs. Marlow yn ei th ; ac yn 1741-1744 pregethai hefyd yn Llanllieni. Yng Nghymdeithasfa Watford (Ionawr 1743) fe'i neilltuwyd yn ' Gynghorwr Cyhoeddus ' (h.y. teithiol), ac ychydig wedyn yr oedd yn arolygydd seiadau sir Faesyfed dan [Harris](#); y mae llythyr gan un o ohebwy'r [Harris](#) yn 1744 yn disgrifio'r erlid creulon a fu ar Beaumont - ond chwedl yn unig yw'r traddodiad iddo gael ei labyddio i farwolaeth.

Mewn llythyr o eiddo Beaumont at [Harris](#) yn Ebrill 1745 (rhif 1310 yn yr 'Inventory' swyddogol), cawn amlygiad o wahaniaeth barn ddiwinyddol rhwng y ddeuddyn, ac erbyn Rhagfyr 1748 (llythyr rhif 1836) gellid meddwl bod Beaumont nid yn unig wedi g yro at Antinomiaeth ond hefyd yn pregethu heresiâu eraill, yng nghwmni ei ddisgybl [Thomas Sheen](#) - y mae'r newidiadau hyn yn nodweddiadol o'r anhrefn a arweiniodd i'r ymranïad Methodistaidd yn 1750-1762. Fodd bynnag, yr oedd Beaumont hefyd, fel ei hen arweinydd [Harris](#), yn teimlo atyniad at Forafiaeth. Yn 1750, aeth i lawr i Sir Benfro 'er mwyn ei iechyd' (meddai cofnod Morafaidd), a phregethodd yno. Bu farw yn Hwlfordd 22 Mehefin 1750, a chladdwyd ef yn Prendergast. Bu pregethu Morafaidd yn y Gore o 1751 ymlaen, ac yr oedd amryw o aelodau'r gynulleidfa Forafaidd yn Llanllieni 'n bobl o sir Faesyfed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)*, i, 222-6

M. H. Jones, *The Trevecka Letters, or the unpublished MSS. correspondence of Howell Harris and his contemporaries* (1932)

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1935

Y Cymmrodor, 1938, 36

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733302](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

